

# Canllawiau ar gyfer Darparu Cyflenwadau Dŵr Yfed Dros Dro mewn Digwyddiadau



Partneriaeth  
Dŵr ac Iechyd  
Cymru

# Cynnwys

Section	Page
1   Cyflwyniad	1
2   Deddfwriaeth	
3   Gwneud cais am gyflenwad dŵr	
4   Cynlluniau	2
5   Asesu risg	
6   Cynlluniau brys	3
7   Comisiynu cyflenwad dŵr	
Ffigur 1 - Gweithdrefn a argymhellir ar gyfer diheintio	
8   Atal halogiad	6
9   Yn ystod y digwyddiad	
10   Argymhellion pellach ar gyfer arfer da	
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1: Rhestr wirio ac amserlen i baratoi ar gyfer digwyddiad	8
Atodiad 2: Manylion cyswllt cwmnïau dŵr	9
Atodiad 3: Enghraifft o asesiad risg ar gyfer darparu cyflenwad dŵr ar gyfer digwyddiad	10
Atodiad 4: Y Weithdrefn a argymhellir ar gyfer casglu samplau o ddŵr yfed	13

Lluniwyd y ddogfen ganllaw hon gan Bartneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru, sef menter iechyd y cyhoedd sy'n dod â sefydliadau ac asiantaethau perthnasol at ei gilydd i gydweithio ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd a dŵr.

Mae nifer fawr o sefydliadau ac asiantaethau yn rhan o Bartneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Byrddau Iechyd
- Awdurdodau Lleol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru
- Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Cwmnïau Dŵr:
  - Dŵr Cymru,
  - Severn Trent Water
  - Dee Valley Water

Bwriedir i'r ddogfen ganllaw hon gael ei defnyddio gan drefnwyr digwyddiadau mawr megis Eisteddfod, sioe amaethyddol neu garnifal lle mae angen cyflenwad dŵr dros dro o gyflenwad cyhoeddus, cyflenwad dŵr preifat neu danceri dŵr. Mae'n gymwys i bob digwyddiad lle mae angen cysylltiad newydd â'r cyflenwad dŵr yn ogystal â digwyddiadau sy'n cysylltu â chyflenwad presennol, e.e. digwyddiadau blynyddol sy'n cael eu cynnal ar yr un maes sioe.

## 1 | Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i ddogwyddiadau trwyddedig a digwyddiadau didrwydded. Er nad ydynt wedi'u hanelu at wirfoddolwyr sy'n cynnal digwyddiadau bach, er enghraifft trigolion lleol sy'n dod at ei gilydd i drefnu ffêt bentref, mae'n bwysig bod y trefnwyr hyn yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi dŵr yfed neu ddŵr a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd ac yn cyfeirio at yr adrannau perthnasol.

Mae'r canllawiau yn disgrifio'r mesurau paratoi, cynnal a chadw a monitro y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod cyflenwad dŵr yfed diogel ar gael drwy gydol y digwyddiad. Mewn achosion lle nad oes digon o ddŵr neu lle mae profion yn nodi bod cyflenwad dŵr wedi'i halogi - mae hyn yn peri risg i iechyd y cyhoedd a allai atal digwyddiad rhag cael ei gynnal os nad oes ffynhonnell amgen o ddŵr diogel ar gael.

Gall methu â chynllunio'n briodol i ddarparu ffynhonnell ddiogel o ddŵr yfed ar gyfer digwyddiad gael canlyniadau difrifol a gallai'r trefnwyr wynebu'r canlynol:

- costau ychwanegol ;
- hysbysiad ac erlyniad;
- risg uchel y ceir achosion o glefyd e.e. cryptosporidiwm, campylobacter neu *E. coli O157*;
- achos sifil petai rhywun yn mynd yn sâl;
- colli enw da ac amharodrwydd ar ran y cyhoedd i fynd i ddogwyddiadau yn y dyfodol; neu
- sylw anffafriol yn y cyfryngau.

Amlinellir y camau y mae angen i drefnwyr eu cymryd er mwyn sicrhau bod cyflenwad dŵr dros dro ar gael a'r amserlen gysylltiedig yn Atodiad 1.

## 2 | Deddfwriaeth

Er bod y ddogfen hon ar ffurf canllawiau, y ddeddfwriaeth sy'n gymwys yw: Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010, ac yn Lloegr Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 2009. Bwriedir i'r ddeddfwriaeth hon sicrhau bod digwyddiadau yn darparu cyfenwad dŵr iachus a digonol ac fe'i gorfodir gan yr Awdurdod Lleol perthnasol. Mae dŵr o'r prif gyflenwad sy'n ffynhonnell dros dro ar gyfer digwyddiadau yn System Ddosbarthu Breifat ac felly mae'n dod o dan y rheoliadau hyn yn ogystal â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.

Lle ceir cyflenwadau dŵr o Gwmni Dŵr, mae'n rhaid i'r ffitiadau a'r cyfleusterau ar y safle a'r ffordd y cânt eu gosod gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999, er mwyn atal dŵr yfed a dŵr a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd rhag cael ei halogi ac atal unrhyw ddŵr rhag cael ei wastraffu. Mae'n rhaid sicrhau nad oes unrhyw risg y caiff dŵr yfed ei halogi ar y safle gan ôl-lifiad\* nac mewn unrhyw ffordd arall o'r naill allfa ddŵr i'r llall ac mae'n rhaid diogelu cyflenwad cyhoeddus y Cwmni Dŵr yn erbyn ôl-lifiad o gyflenwadau dros dro i ddogwyddiadau.

Rheoleiddir hyn gan Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 a Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010 (Cymru) ac fe'i gorfodir gan y Cwmni Dŵr.

## 3 | Gwneud cais am gyflenwad dŵr

Er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer digwyddiad a sicrhau bod digon o amser i ymdrin ag unrhyw broblemau a all godi, mae'n rhaid i drefnwyr digwyddiadau gysylltu ag adran Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol perthnasol a'r Cwmni Dŵr priodol, os oes angen cysylltu â'r cyflenwad dŵr cyhoeddus, cyn gynted â phosibl wrth gynllunio digwyddiad.

### a) Cysylltu â'r cyflenwad cyhoeddus Cysylltiad Newydd:

Os oes angen cysylltiad newydd â'r cyflenwad dŵr cyhoeddus ar gyfer digwyddiad, mae'n rhaid cysylltu â'r Cwmni Dŵr priodol ac adran Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol perthnasol. Mae'n rhaid cysylltu â'r Cwmni Dŵr perthnasol **cyn gynted â phosibl, o leiaf 12 wythnos cyn y digwyddiad**. Ceir manylion cysyllt yn Atodiad 2.

Bydd y Cwmni Dŵr yn penderfynu ar y man mwyaf addas yn ei system ddogwyddiad ar gyfer y cysylltiad. Codir tâl am y gwasanaeth hwn a chaiff y cyflenwad ei fesur. Gall y tâl a godir amrywio rhwng gwahanol Gwmnïau Dŵr.

\* Ôl-lifiad: llif nad yw i'r cyfeiriad arferol bwriadedig y tu mewn i ffitiad dŵr neu ohono. Gall ôl-lifiad arwain at ddŵr halogedig o ddyfais neu ddraen yn mynd i mewn i'r pibellau a dod allan drwy allfa dŵr yfed.

### Cysylltiad sy'n Bodoli Eisoës:

Os bwriedir cymryd y cyflenwad dŵr ar gyfer digwyddiad o gysylltiad sy'n bodoli eisoës mae'n rhaid rhoi o leiaf **28 diwrnod o rybudd** i'r Cwmni Dŵr perthnasol. **Fodd bynnag, anogir trefnwyr digwyddiadau i gysylltu ag ef cyn gynted â phosibl.** Mae angen hysbysu'r Cwmni Dŵr oherwydd gall fod angen iddo ddarparu ar gyfer y cyflenwad ychwanegol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw sgil-ffeithiau ar gyflenwad y trigolion lleol. Rhoddir y manylion cyswllt ar gyfer cael cyflenwad dŵr o gysylltiad sy'n bodoli eisoës yn Atodiad 2.

Mae'n rhaid i drefnwyr hefyd gysylltu ag adran lechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol perthnasol i'w hysbysu o'r digwyddiad, gan roi digon o amser iddi gynnal asesiad risg a gwneud gwaith samplu.

### b) Cysylltu â chyflenwad dŵr preifat neu gyflenwad dŵr mewn tanceri

Mae'n bwysig rhoi cymaint o rybudd â phosibl (o leiaf 28 diwrnod) i adran lechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol perthnasol os bwriedir defnyddio cyflenwad dŵr preifat neu gyflenwad dŵr mewn tanceri ar gyfer digwyddiad. Mae angen gwneud hyn hyd yn oed os cymerir y cyflenwad o gysylltiad sy'n bodoli eisoës.

Mae'n bwysig nodi, os **bwriedir llenwi tanceri o gyflenwad dŵr cyhoeddus Cwmni Dŵr, fod yn rhaid cael caniatâd gan y Cwmni Dŵr cyn llenwi'r tancer.**

Mae'r wybodaeth y bydd angen i chi ei rhoi pan fyddwch yn cysylltu â'r Cwmni Dŵr priodol ac adran lechyd yr Amgylchedd am y tro cyntaf yn cynnwys:

- Perchenogaeth a manylion y cyflenwad dŵr presennol ar y safle h.y. perchennog/perchenogion unigol neu Gwmni Dŵr trwyddedig presennol.
- Yr unigolyn/unigolion perthnasol o dan Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010.
- Maint y cyflenwad a'r math o gyflenwad sydd ei angen.
- Hyd y digwyddiad a faint o bobl a ddisgwylir.
- Amlinelliad o'r holl gyfleusterau a fydd yn defnyddio cyflenwad dŵr e.e. safle'r ŵyl a meysydd gwersylla.
- Manylion cyswllt gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost.

### 4 | Cynlluniau

Dylai'r trefnwyr roi cynlluniau safle a darluniau manwl ar gyfer y digwyddiad i adran lechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol perthnasol a'r Cwmni Dŵr priodol. Dylai'r rhain gynnwys y canlynol (rhestr enghreifftiol yw hon, nid un gynhwysfawr):

- Rhwydwaith a seilwaith dosbarthu'r cyflenwad dŵr (y rhwydwaith presennol ac arfaethedig), e.e. lleoliad y ffynhonnell, pibellau a thanceri (os defnyddir rhai) a disgrifiad ohonynt.
- Cyfeiriad y llif.
- Lleoliad y canlynol:
  - pypiau (nodwch eu maint);
  - ffynhonnell/ffynonellau dŵr sy'n dod i mewn;
  - toiled, basnau golchi dwylo a chyfleusterau cael cawod;
  - mannau dŵr yfed;
  - mannau cyflenwi dŵr ar gyfer paratoi bwyd;
  - cyfleusterau ychwanegol e.e. cafnau anifeiliaid, pibellau dyfrio;
  - cyflenwadau neu bibellau diangen;

- tanceri neu danceri dŵr
- safbibellau;
- dyfeisiau/mesuryddion ôl-lifiad;
- cysylltiadau;
- mannau trin e.e. ar gyfer diheintio â chlorin, datglorineiddio a phrofi/mesur dŵr;
- mannau samplu/monitro arfaethedig, bydd angen trafod y rhain â'r Awdurdod Lleol;
- seilwaith argyfwng.

### 5 | Asesu risg

Unwaith y bydd y safle wedi'i gynllunio, dylai'r trefnwyr gynnal asesiad risg o'r trefniadau ar gyfer y cyflenwad dŵr sy'n disgrifio'r canlynol:

- Y risgiau posibl ar y safle a all arwain at halogi'r cyflenwad dŵr neu gyflenwad dŵr annigonol.
- Y camau y mae angen eu cymryd i reoli neu atal y risgiau hyn.
- Y profion a'r gweithdrefnau monitro y mae angen eu cyflawni er mwyn sicrhau bod y mesurau rheoli hyn ar waith e.e. gwaith samplu ac archwiliadau parhaus.
- Y camau i'w cymryd os bydd y mesurau rheoli hyn yn methu.

Dylid penodi rhywun i fod yn gyfrifol am yr asesiad risg hwn a rhoi ei fanylion cyswllt i adran lechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol perthnasol a'r Cwmni Dŵr priodol.

Dylid hysbysu pob cyflogai perthnasol o'r asesiad risg hwn a'i hyfforddi fel y gall ymateb yn briodol i sefyllfaoedd lle y gallai ansawdd dŵr neu gyflenwad dŵr fod yn annigonol.

Dylid cyflwyno'r asesiad risg i'r adran lechyd yr Amgylchedd i'w gymeradwyo o leiaf 14 diwrnod cyn y digwyddiad. Gall yr adran lechyd yr Amgylchedd roi cyngor ar y risgiau a rhoi cymorth i drefnwyr digwyddiadau. Ceir enghraifft o asesiad risg yn Atodiad 3.

## 6 | Cynlluniau brys

Dylai trefnwyr digwyddiadau gofnodi eu cynllun gweithredu brys ar gyfer ymdrin ag achos o halogi neu fethiant y cyflenwad dŵr e.e. rhoi terfyn ar y digwyddiad neu sicrhau bod ganddynt gynllun wrth gefn ar gyfer darparu cyflenwadau dŵr brys. Os bwriedir darparu cyflenwadau dŵr brys, dylai'r trefnwyr gofnodi logisteg cael a dosbarthu cyflenwadau brys yn eu cynlluniau brys e.e. os bwriedir defnyddio tanceri dylid ystyried a yw'r safle yn hygyrch. Ni all trefnwyr ddibynnu ar yr adran lechyd yr Amgylchedd na'r Cwmni Dŵr i ddarparu cyflenwadau dŵr brys ar gyfer digwyddiad.

Dylid cyflwyno'r Cynllun Brys i'r adran lechyd yr Amgylchedd i'w gymeradwyo o leiaf 14 diwrnod cyn y digwyddiad.

## 7 | Comisiynu cyflenwad dŵr

### a) Storio a Diheintio Pibellau Dosbarthu

- Pan na fyddant yn cael eu defnyddio, dylid draenio a storio pibellau a ffitiadau oddi ar y ddaear, er mwyn eu diogelu rhag baw neu fermin.
- Dylai fod gan yr holl bibellau gapiau pen sy'n ffitio'n dynn a dylai'r rhain aros yn eu lle nes y bydd y bibell wedi'i chysylltu.
- Dylid rhoi'r holl ffitiadau a mannau cysylltu pibellau e.e. safbibellau mewn bag neu dylid eu gorchuddio a'u selio er mwyn atal halogiad neu ymyrraeth fwriadol.

Mae'n rhaid i unrhyw safbibell a ddefnyddir i dynnu dŵr yn uniongyrchol o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus gael ei diheintio cyn ei defnyddio a rhaid sicrhau bod y math hwnnw o safbibell yn un a gymeradwywyd gan y Cwmni Dŵr a chanddi falf atal ddwbl mewn llinell i atal ôl-lifiad.

- Dylid sicrhau nad oes unrhyw bibellau a ffitiadau (yn enwedig pibellau plastig) yn dod i gysylltiad ag olew tanwydd a phaent a dylid cael gwared ar unrhyw ddeunyddiau sydd wedi'u halogi â'r fath hylifau. Gall olew tanwydd dreiddio i bibellau plastig gan roi blas ac arogl annymunol i ddŵr.
- Gall deunyddiau ar ffitiadau dŵr sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â dŵr achosi halogi megis blas, arogl neu dwf microbaidd os nad ydynt yn addas i'w defnyddio gyda dŵr yfed. Mae'n rhaid i ddeunyddiau anfetelaidd megis plastig a rwber mewn pibellau a ffitiadau gael eu cymeradwyo ar gyfer dod i gysylltiad â dŵr yfed, er enghraifft fel y nodir yn Rheoliad 31 o Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010 neu Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.
- Pan ddaw dŵr o'r cyflenwad cyhoeddus, mae'n rhaid i'r holl ffitiadau dŵr (sef yr holl bibellau, ffitiadau pibellau, uniadau, mesuryddion dŵr, falfiau, dyfeisiau atal ôl-lifiad, sestonau, adnoddau storio dŵr poeth a dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â system cyflenwi dŵr y safle) gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 o ran perfformiad mecanyddol ac addasrwydd ar gyfer ansawdd dŵr.

Rhestrir ffitiadau dŵr a aseswyd ac y nodwyd eu bod yn bodloni'r gofynion hyn yn y Cyfeirlyfr Ffitiadau a Deunyddiau Dŵr sydd ar gael am ddim ar wefan Cynllun Cyngori Rheoliadau Dŵr (WRAS)

[www.wras.co.uk/directory](http://www.wras.co.uk/directory).

- Pan ddaw dŵr o danceri neu gyflenwadau preifat mae'n arfer da dilyn yr un gofynion.
- Dim ond personél a hyfforddwyd yn briodol a chanddynt dystysgrifau priodol a ddylai osod, paratoi a diheintio pibellau cyflenwi dŵr yfed. Dylid darparu tystiolaeth wedi'i dogfennu i ddangos eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol e.e. tystysgrifau.
  - Nodir gweithdrefn a argymhellir ar gyfer diheintio pibellau yn Ffigur 1. Os na ddilyni'r y weithdrefn hon, dylai trefnwyr geisio cyngor gan y Cwmni Dŵr, ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus, neu'r adran lechyd yr Amgylchedd os yw'n gyflenwad dŵr preifat neu'n gyflenwad dŵr mewn tanceri cyn bwrw ymlaen â'r weithdrefn ddiheintio. Ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus, mae'n rhaid i'r ddyfais atal ôl-lifiad gywir yn y man cysylltu â'r prif gyflenwad fod yn ei lle cyn bwrw ymlaen â'r gwaith diheintio. Bydd angen iddi gael ei harchwilio gan y Cwmni Dŵr perthnasol. Mae Ffigur 1 hefyd yn nodi pryd i gymryd samplau ac ar gyfer beth y dylid eu dadansoddi.
  - Pan fwriedir cysylltu â'r cyflenwad dŵr cyhoeddus, bydd y Cwmni Dŵr perthnasol yn creu cysylltiad dros dro â'r cyflenwad er mwyn hwyluso'r gwaith diheintio. Caiff y cyflenwad hwn ei ddatgysylltu wedyn a dim ond pan geir cadarnhad bod y gwaith diheintio'n llwyddiannus y

caiff ei ailgysylltu.

- Bydd angen mesur lefelau clorin ar y safle er mwyn sicrhau bod y pibellau wedi'u diheintio, cyn cymryd rhagor o fesuriadau ar ôl gwneud y gwaith datglorineiddio (gweler Ffigur 1).
- Mae angen cymryd samplau microbiolegol o'r dŵr ar ôl iddo fynd drwy'r pibellau. Ymhlith y gwaith dadansoddi a argymhellir mae bacteria coliform gan gynnwys *E.coli*, cyfanswm cyfrif hyfyw bacteria ac enterococi. Bydd paramedrau ychwanegol megis pH, dargludedd a thyrffedd hefyd yn dangos bod y dŵr o ansawdd addas. Dylai canlyniadau'r profion hyn fod ar gael tua 24 - 72 awr ar ôl gwneud y gwaith samplu. Dylai'r samplau naill ai gael eu cymryd gan yr Awdurdod Lleol neu unigolion cymwys yn unol ag Atodlen 3, RHAN 1, paragraff 4 o Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 (gweler nodyn 1 isod). Os caiff ei drefnu yn unol â nodyn 1, dylid rhoi'r canlyniadau i adran lechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol a'r Cwmni Dŵr perthnasol cyn gynted ag y byddant ar gael. Os cafodd y gwaith samplu ei wneud gan yr Awdurdod Lleol, rhoddir y canlyniadau i'r trefnydd a'r Cwmni Dŵr cyn gynted ag y

byddant ar gael.

- Os na fydd y canlyniadau microbiolegol yn dderbyniol, bydd yr adran lechyd yr Amgylchedd a, phan fo'n berthnasol, y Cwmni Dŵr yn mynnu bod y gwaith diheintio a samplu yn cael ei wneud eto. Ni roddir caniatâd i gysylltu â'r cyflenwad cyhoeddus na dosbarthu cyflenwad dŵr preifat nes y bydd y canlyniadau microbiolegol yn dderbyniol.
- Unwaith y bydd y canlyniadau microbiolegol yn dangos bod ansawdd y dŵr yn foddhaol dylid rhoi Tystysgrif Ddiheintio ffurfiol i naill ai'r adran lechyd yr Amgylchedd ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat neu, pan fwriedir defnyddio cysylltiad â'r cyflenwad cyhoeddus, i'r Cwmni Dŵr. Os caiff gwaith samplu/dadansoddi ei drefnu yn unol â nodyn 1 isod, dylid darparu copi o adroddiad y labordy ar y dadansoddiad o'r samplau microbiolegol hefyd. Dylai'r dystysgrif hefyd roi manylion y weithdrefn a ddilynwyd i ddiheintio'r pibellau a manylion y profion/mesuriadau sy'n cadarnhau bod y pibellau wedi'u diheintio. Dylai adroddiad y labordy nodi'r dyddiadau/amser y gwnaed y gwaith samplu, unrhyw fesuriadau a gymerwyd ar y safle pan wnaed y gwaith samplu a chanlyniadau'r samplau a gymerwyd ar gyfer dadansoddiadau microbiolegol ac unrhyw ddadansoddiadau

perthnasol eraill.

- Pan gaiff pibellau ar gyfer digwyddiad eu gosod fesul cam dylai'r trefnwyr sicrhau bod pob cyfres o bibellau wedi'i diheintio.
- Mae'n ofynnol i adran lechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol, o dan y Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat, gynnal asesiad risg o'r system dosbarthu dŵr. Gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r asesiad risg hwn, mae'n bosibl y bydd angen cynnal profion ychwanegol ar y cyflenwad dŵr.

#### **b) Cyflenwadau Dŵr mewn Tanceri a Chyflenwadau Dŵr Potel**

Cyhoeddwyd Safon Brydeinig sy'n rhoi canllawiau ar ddarparu cyflenwad dros dro o ddŵr yfed diogel ar gyfer digwyddiadau pan nad oes cyflenwad parhaol ar gael h.y. pan ddefnyddir tanceri neu adnoddau eraill neu ddŵr potel i ddarparu dŵr:

**BS8551: 2011 Provision and management of temporary water supplies and distribution networks (not including provisions for statutory emergencies) – Code of Practice**

Argymhellir yn gryf y dylai trefnwyr digwyddiadau a fydd yn darparu dŵr drwy danciau neu boteli gael copi o'r safon hon er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion angenrheidiol a nodwyd ar gyfer cyflenwi dŵr yfed diogel.

---

#### **Nodyn 1, Gwaith samplu a dadansoddi a wneir gan unigolion ac eithrio awdurdodau lleol:**

1) Gall awdurdod lleol drefnu i unrhyw unigolyn gymryd a dadansoddi samplau ar ei ran.

2) Ni ddylai awdurdod lleol wneud trefniant o dan baragraff (1) oni bai –

(a) ei fod yn fodlon y caiff y dasg ei chyflawni'n brydlon gan unigolyn sy'n gymwys i wneud hynny;

(b) ei fod wedi gwneud trefniadau sy'n sicrhau y caiff ei hysbysu ar unwaith o unrhyw achos o dorri'r Rheoliadau hyn ynghyd ag unrhyw ganlyniad arall o fewn 28 diwrnod.

# Ffigur 1

## Gweithdrefn a argymhellir ar gyfer diheintio

- Chwistrellwch hydoddiant sy'n cynnwys o leiaf 1000 mg/l o glorin dros bob ffitiad ac ati wrth gydosod.

- Gellir defnyddio swabiau i glirio baw neu falurion o bibellau cyn eu diheintio.

- Chwistrellwch sodiwm hypoclorit i mewn i'r pibellau gan sicrhau bod o leiaf 20 mg/l drwyddi a gadewch iddo sefyll yn y pibellau am 16 awr. Fel arall, dylech eu diheintio â 50 mg/l am awr. Sicrhewch nad oes modd defnyddio dŵr yn ystod y cyfnod diheintio e.e. labelwch dapiau. Dylid nodi crynodiadau clorin gan ddefnyddio pecyn profi cwmpas eang addas.

- Llifolchwch y dŵr tra chlorinedig yn gyfan gwbl o'r pibellau nes y bydd crynodiad clorin y dŵr yn y prif gyflenwad wedi'i leihau i lefel sy'n cyfateb i'r hyn a geir yn y dŵr cyflenwi. Mae Sodiwm Hypoclorit yn wenwynig IAWN i fywyd dyfrol a bydd crynodiadau isel iawn ohono yn lladd pysgod.

Mae'n rhaid datglorineiddio dŵr chlorinedig cyn ei waredu. Cyn gollwng unrhyw beth o'r system cyflenwi dŵr, dylech geisio cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd drwy ei Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid Genedlaethol ar [0370 8506560](tel:03708506560) ymhell cyn y digwyddiad. Yn gyffredinol, dylid osgoi unrhyw ollyngiadau uniongyrchol i gorff o ddŵr.

- Llenwch y pibellau â dŵr glân a gadewch iddo sefyll am o leiaf 16 awr cyn cymryd sampl ar gyfer dadansoddiad microbiolegol. Bydd y cyfnod sefyll hwn o 16 awr yn sicrhau na fydd microbau wedi aildyfu.

Dylid cymryd samplau mewn mannau cynrychioliadol yn y system ddsbarthu e.e. ar ddechrau, yng nghanol ac ar ddiwedd y pibellau mewn perthynas â'r dŵr sy'n dod i mewn.

Yn achos cyflenwad dŵr preifat a chyflenwad dŵr mewn tanceri bydd angen sampl o'r dŵr sy'n dod i mewn hefyd.

Dylai samplau gael eu dadansoddi gan labordy sydd wedi'i achredu. Argymhellir yn gryf fod y man samplu yn cael ei ddiheintio cyn cymryd sampl er mwyn sicrhau na fydd yn halogi'r samplau.

Nodir gweithdrefn a argymhellir ar gyfer diheintio'r man samplu yn Atodiad 4.

- Llifolchwch y pibellau ac wedyn fesur lefel y clorin ar y safle mewn mannau cynrychioliadol er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r lefelau o glorin yn y dŵr cyflenwi ac nad yw'r pibellau wedi dirywio.

Bydd archwiliad gweledol o loywyder y dŵr gan ddefnyddio cynhwysydd gwydr tryloyw yn dangos a oes unrhyw falurion yn y pibellau.

## 8 | Atal halogiad

Yn ogystal â sicrhau bod y pibellau dosbarthu wedi'u diheintio, dylai trefnwyr hefyd sicrhau na fydd y gosodiadau na'r ffitiadau sydd ynghlwm wrthynt yn halogi'r cyflenwad dŵr e.e. drwy ôl-lifiad, oherwydd gallai hyn beryglu iechyd y cyhoedd. Mae angen dyfeisiau atal ôl-lifiad er mwyn atal ôl-lifiad o bob dyfais, ffitiad a phroses. Mae'n rhaid i'r math o ddyfais fod yn briodol i lefel y risg sy'n gysylltiedig â dyfais neu ffitiad. Rhoddir manylion yn y Canllawiau ar Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 a gyhoeddwyd gan Defra: [www.archive.defra.gov.uk/environment/quality/water/industry/wsregs99/documents/waterregs99-guidance.pdf](http://www.archive.defra.gov.uk/environment/quality/water/industry/wsregs99/documents/waterregs99-guidance.pdf).

Mae'n rhaid i unrhyw ffitiadau neu ddyfeisiau sy'n cario dŵr sydd wedi dod o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 sy'n ymwneud ag atal y cyflenwad rhag cael ei halogi gan osodiadau a ffitiadau dŵr. Efallai y bydd canllaw'r Cynllun Cynghori Rheoliadau Dŵr ar y rheoliadau hyn yn ddefnyddiol i drefnwyr am ei fod hefyd yn rhoi manylion am y gofynion dylunio y mae angen eu bodloni er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau: [www.wras.co.uk](http://www.wras.co.uk).

Ni ddylai fod unrhyw groesgysylltiad uniongyrchol rhwng cyflenwad dŵr cyhoeddus a chyflenwad dŵr preifat neu gyflenwad dŵr mewn tanceri.

Ar gyfer digwyddiadau a gyflenwir â chyflenwad dŵr cyhoeddus, mae angen dyfais atal ôl-lifiad briodol yn y man cyflenwi ac efallai y bydd Arolygydd Rheoliadau Dŵr Cwmni Dŵr yn ymweld â'r safle er mwyn sicrhau bod y fath ddyfais yn cael ei defnyddio a bod gosodiadau a ffitiadau eraill yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Os bydd yr arolygiad hwn yn nodi bod cysylltiad dŵr yn torri'r Rheoliadau neu nad yw ffitiadau dŵr yn cydymffurfio â hwy, rhoddir hysbysiad ffurfiol i'r trefnwyr yn mynnu eu bod yn gwneud newidiadau i'r gosodiadau/ffitiedau fel eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Mewn achosion difrifol, efallai y caiff y cysylltiad â'r cyflenwad cyhoeddus ei ddatgysylltu ar unwaith.

Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle unwaith eto a dim ond os yw'r cyfleusterau yn cydymffurfio'n llwyr â'r Rheoliadau y bydd yn awdurdodi eu cysylltu â'r cyflenwad dŵr cyhoeddus. Os na wneir y newidiadau angenrheidiol, ni fydd gan y digwyddiad gyflenwad dŵr p'un a gaiff ei gyflenwi gan y cyflenwad dŵr cyhoeddus, cyflenwad dŵr preifat neu ddŵr mewn tanceri. Bydd yr adran Iechyd yr Amgylchedd yn arolygu'r safle, yn asesu'r risgiau ac yn cymryd samplau er mwyn sicrhau bod y cyflenwad dŵr a'r cyfleusterau yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010.

## 9 | Yn ystod y digwyddiad

Gall swyddogion Iechyd yr Amgylchedd gynnal archwiliad/au a chymryd samplau yn ystod y digwyddiad yn unol â Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 a Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) 1995.

## 10 | Argymhellion pellach ar gyfer arfer da

Nodir nifer o argymhellion ar gyfer arfer da isod y dylai trefnwyr gyfeirio atynt wrth baratoi a'u cynnwys yn yr asesiad risg lle y bo'n gymwys:

- Dylai personél gweithredol sy'n ymwneud â chyflenwi dŵr fod wedi cael hyfforddiant priodol gan gynnwys hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o hylendid ansawdd dŵr. Fel gyda pharatoi a chyflenwi bwyd, dylai personél sy'n ymwneud â chyflenwi dŵr fod yn ymwybodol o'r angen parhaus i hysbysu rheolwyr o afiechydon penodol e.e. cyfog a dolur rhydd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cyflawni tasgau lle maent yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'r cyflenwad dŵr a chyfleusterau dŵr yfed.
- Ni ddylid bod wedi defnyddio pibellau dosbarthu at unrhyw ddiben arall heblaw am ddŵr yfed a dylid eu llifolchi a'u draenio ar ôl eu defnyddio bob tro, eu trin yn ofalus er mwyn atal halogi a'u storio'n briodol cyn ac yn ystod y digwyddiad. Dylid storio pibellau oddi ar y ddaear gyda chapiau pen arnynt.
- Nodwch leoliad unrhyw garthffos gladdedig, pibellau dŵr (claddedig neu uwchben y ddaear) neu geblau trydan sy'n bodoli eisoes a marcwch hwy ar eich map.
  - A oes unrhyw hen bibellau cyflenwi dŵr o'r prif gyflenwad neu gyflenwad preifat ar y safle a ble y maent?
  - A oes unrhyw gyflenwadau dŵr o'r prif gyflenwad neu unrhyw gyflenwadau dŵr preifat heb eu trin i erddi neu gafnau anifeiliaid fferm a ble y maent?



Sicrhewch fod pawb sy'n ymwneud â pharatoi'r cyflenwad dŵr yn ymwybodol o'u lleoliad.

- A ydych wedi siarad â'r adran lechyd yr Amgylchedd am eich cynllun brys ac wedi ystyried sut y bydd tanceri neu danceri dŵr brys yn mynd i mewn i'r safle?
- Ystyriwch leoliad argaeledd trydan i weithredu pypiau a systemau trin dŵr os oes eu hangen.
- Ystyriwch yr amodau amgylcheddol (y tu mewn a'r tu allan) a allai achosi halogi wrth gysylltu'r cyflenwad dŵr neu ei weithredu. Dylid cynnwys hyn fel rhan o'r asesiad risg.
- Sicrhewch y rheolir mynediad i gyfleusterau storio dŵr gan unigolion heb awdurdod ac y cyfyngir arno.
- Sicrhewch y gall samplwyr, plymwyr, archwilwyr, ac ati fynd ar y safle a symud o'i amgylch.
- Ystyriwch ble mae cysylltiadau anghyfreithlon yn bosibl a sicrhewch fod mesurau ychwanegol ar waith er mwyn atal halogi e.e. arolygiadau rheolaidd o'r safle pan fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal.
- Ystyriwch leoliad storfeydd tanwydd neu baent gerllaw pibellau dŵr ac ystyriwch ddefnyddio byndiau neu bibellau atal os oes risg y caiff tanwydd neu baent ei ollwng a dŵr ei halogi.
- Os bwriedir cynnal y digwyddiad yn ystod tywydd cynnes dros sawl diwrnod, ystyriwch ble y gellid defnyddio deunydd inswleiddio orau er mwyn atal tymereddau dŵr rhag codi.
- Labelwch dapiau sy'n fannau dŵr yfed addas a'u diheintio (fel y disgrifir yn Atodiad 4) cyn y digwyddiad.
- Dylech fonitro gweddillion clorin yn ystod y digwyddiad mewn mannau priodol. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth bod y cyflenwad yn iachus.
- Sicrhewch fod masnachwyr symudol sydd â thanciau dŵr ar eu safle wedi diheintio'r tanc cyn ei ddefnyddio i storio dŵr.
- Ystyriwch ble mae pibellau wedi'u gosod, dylid sicrhau bod pibellau dros dir yn ddiogel a dylent osgoi llwybrau drwodd i geir ac ati neu os na ellir gwneud hynny sicrhewch eu bod wedi'u diogelu rhag cael eu difrodi.
- Archwiliwch dapiau dŵr yfed yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau mewn cyflwr hylan drwy gydol y digwyddiad.

# Atodiad 1

## Rhestr wirio ac amserlen i baratoi ar gyfer digwyddiad

- |   |   |
|---|---|
| <p>1 Cyflwyno cais (gan gynnwys cynlluniau'r safle) am gysylltiad dŵr i naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>a. Y Cwmni Dŵr perthnasol ac adran lechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol os bwriedir cysylltu â chyflenwad cyhoeddus – neu</li><li>b. Adran lechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol perthnasol os bwriedir cysylltu â chyflenwad dŵr preifat neu'r ddau os bwriedir defnyddio cyflenwad dŵr mewn tanceri.</li></ul> | <p>Cysylltiad newydd: o leiaf 12 wythnos ymlaen llaw</p> <p>Cysylltiad sy'n bodoli eisoes: o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw</p> |
| <p>2 Cyflwyno'r Asesiad Risg a'r Cynllun Brys a chael cymeradwyaeth gan yr adran lechyd yr Amgylchedd ar eu cyfer.</p>  | <p>O leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw</p>   |
| <p>3 Diheintio'r pibellau, datglorineiddio, cymryd mesuriadau ar y safle.</p>   | <p>O leiaf 7 diwrnod ymlaen llaw</p>  |
| <p>4 Samplau i'w cymryd yn unol â'r gofynion a nodir yn adran 7.</p>  |   |
| <p>5 Os defnyddir cyflenwad cyhoeddus, sicrhau bod y gosodiadau a'r ffitiadau ar gael i'w harchwilio o dan Reoliadau Dŵr Cwmni Dŵr</p>  |   |
| <p>6 Cyflwyno canlyniadau microbiolegol i'r Cwmni Dŵr a'r adran lechyd yr Amgylchedd.</p>   | <p>Cyn gynted â phosibl.<br/>O leiaf 5 diwrnod ymlaen llaw</p>  |
| <p>7 Os bydd y canlyniadau microbiolegol yn foddhaol, cyflwyno Tystysgrif Ddiheintio i naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>a. Y Cwmni Dŵr a'r adran lechyd yr Amgylchedd os yw'n gyflenwad cyhoeddus – neu</li><li>b. Yr adran lechyd yr Amgylchedd os yw'n gyflenwad dŵr preifat neu'n gyflenwad dŵr mewn tanceri.</li></ul>   | <p>Yn syth ar ôl cael canlyniadau microbiolegol boddhaol</p>  |
| <p>8 Llifolchi'r holl bibellau er mwyn eu llenwi â dŵr glân.</p>  | <p>Dim mwy na diwrnod ymlaen llaw</p>   |

# Atodiad 2

## Manylion cyswllt cwmnïau dŵr

### **Dŵr Cymru Welsh Water**

Ar gyfer cysylltiadau newydd â'r cyflenwad cyhoeddus cysylltwch â:

Rhif Ffôn: [0800 9172652](tel:08009172652)

E-bost: [new.connections@dwrcymru.com](mailto:new.connections@dwrcymru.com)

Ar gyfer dŵr a gyflenwir o gysylltiad sy'n bodoli eisoes cysylltwch â:

Rhif Ffôn: [0800 0520130](tel:08000520130)

E-bost: gellir cysylltu â ni drwy'r dudalen 'Cysylltu â Ni' ar wefan

Dŵr Cymru yn: [www.dwrcymru.com](http://www.dwrcymru.com)

---

### **Dee Valley Water**

Cysylltwch â'r Tîm Rheoliadau a Ffitiadau

Rhif Ffôn: [01978 846946](tel:01978846946)

E-bost: [contact@deevalleygroup.com](mailto:contact@deevalleygroup.com)

---

### **Manylion Cyswllt Awdurdodau Lleol**

Rhoddir manylion cyswllt pob Awdurdod Lleol mewn cyfeirlyfrau ffôn ac ar ei wefan

Mae gan y rhestr ar wefan Llywodraeth Cymru ddolenni i bob un o'r 22 o Awdurdodau

Lleol yng Nghymru: [www.wales.gov.uk/topics/localgovernment/localauthorities](http://www.wales.gov.uk/topics/localgovernment/localauthorities)

---

# Atodiad 3

## Enghraifft o asesiad risg ar gyfer darparu cyflenwad dŵr ar gyfer digwyddiad

Rhif	Risg	Camau Rheoli Risg	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau	Llofnodwyd
1	Methiant i gyflenwi dŵr oherwydd methiant y prif gyflenwad sy'n dod i mewn, methiant y pibellau dosbarthu neu halogiad.	Datblygu cynllun brys: Rhoi manylion y cynllun e.e. <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefniadau gyda'r Cwmni Dŵr/ Awdurdod Lleol/cyflenwr dŵr masnachol.</li> <li>Trefniadau mynediad ar gyfer cyflenwadau brys.</li> </ul>				
2	Caiff y dŵr ei halogi drwy groesgysylltiad rhwng dŵr sy'n dod i mewn o'r prif gyflenwad a chyflenwad dŵr preifat.	Disgrifio'r trefniadau a roddir ar waith er mwyn atal y dŵr o'r cyflenwad dŵr preifat rhag mynd i mewn i'r prif gyflenwad e.e. datgysylltu.				
3	Caiff y cyflenwad dŵr ei halogi gan y ffitiadau a'r cyfleusterau dŵr e.e. drwy ôl-lifiad.	Disgrifio'r cynlluniau sydd ar waith i archwilio'r ffitiadau a'r cyfleusterau dŵr sydd wedi'u cysylltu â'r cyflenwad dŵr er mwyn gweld a ydynt yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.  Sicrhau bod tapiau yn cael eu cadw'n hylan.  Archwilio cyfleusterau gwastraff a threfniadau gwaredu.				
4	Caiff y cyflenwad dŵr ei halogi gan dapiau, safbibellau ac ati a ddifrodwyd neu a halogwyd.	Sicrhau bod tapiau yn cael eu cadw'n hylan e.e. archwilio tapiau a safbibellau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn lân a'u hadnewyddu neu eu hatgyweirio yn ôl yr angen.  Dilyn gweithdrefn ddiheintio e.e. yr un a nodir yn ffigur 1.				
5	Halogi a achosir am fod pibellau gwastraff, tanciau storio gwastraff, tanciau carthion neu dai bach gerllaw.	Archwilio cyfleusterau gwastraff a threfniadau gwaredu h.y. gwahanu pibellau a thanciau oddi wrth y cyfleusterau/pibellau dŵr, diogelu pibellau rhag cael eu difrodi a sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i atal gollyngiadau wrth waredu gwastraff.				

# Enghraifft o asesiad risg ar gyfer darparu cyflenwad dŵr ar gyfer digwyddiad

Rhif	Risg	Camau Rheoli Risg	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau	Llofnodwyd
6	Caiff y cyflenwad dŵr ei halogi gan hen rwydwaith pibellau sy'n bodoli eisoes (h.y. ar safleoedd mawr fel arfer).	<p>Pan fo'r digwyddiad yn defnyddio cymysgedd o bibellau newydd a phibellau sy'n bodoli eisoes i gyflenwi dŵr o'r prif gyflenwad, gallai oedran a chyflwr y pibellau effeithio ar y cyflenwad h.y. pibellau wedi'u difrodi/pibellau sy'n gollwng a gwaddod. Gellir datrys hyn drwy ddiheintio'r pibellau, eu llifolchi, cynnal profion pwysedd a nodi ac atgyweirio gollyngiadau.</p> <p>Dylid llifolchi a diheintio merddwr mewn pibellau presennol hŷn ac nas defnyddir yn aml (megis pibellau diangen).</p> <p>Dilyn y gweithdrefnau diheintio e.e. y rhai a nodir yn ffigur 1.</p>				
7	Methiant i gyflenwi dŵr o ganlyniad i doriad trydan.	Disgrifio sicrwydd argaeledd trydan e.e. ar gyfer pypiau gweithredu a systemau trin dŵr.				
8	Caiff y cyflenwad dŵr ei halogi oherwydd amodau amgylcheddol e.e. llifogydd.	Atal cysylltiadau pibellau rhag cael eu boddi gan ddŵr glaw. Sicrhau cyfanrwydd pibellau/cysylltiadau gan gynnwys y bibell gyflenwi sydd wedi'i chysylltu â phibell y prif gyflenwad dŵr.				
9	Caiff y cyflenwad dŵr ei halogi yn fwriadol/damweiniol gan unigolyn/unigolion.	Disgrifio sut y rheolir mynediad i gyfleusterau storio dŵr gan unigolion heb awdurdod a sut y cyfyngir arno e.e. gosod gorchuddion â chlo dros danciau.				
10	Gallai atal mynediad i drefniadau cyflenwi dŵr ar gyfer arolygiadau olygu na chanfyddir cysylltiadau anghyfreithlon.	Mae angen sicrhau y gall samplwyr, plymwyr, archwilwyr, ac ati fynd ar y safle a symud o'i amgylch.				
11	Caiff y cyflenwad dŵr ei halogi o ganlyniad i gysylltiad anghyfreithlon neu heb ei awdurdodi.	Disgrifio mesurau ychwanegol a fydd ar waith er mwyn atal halogi gan gysylltiadau anghyfreithlon/heb eu hawdurdodi/amhriodol e.e. arolygiadau rheolaidd o'r safle yn ystod y digwyddiad.				

# Enghraifft o asesiad risg ar gyfer darparu cyflenwad dŵr ar gyfer digwyddiad

Rhif	Risg	Camau Rheoli Risg	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau	Llofnodwyd
12	Caiff y cyflenwad dŵr ei heintio gan danwydd.	Nodir lleoliad storfeydd tanwydd neu baent gerllaw pibellau dŵr ar y cynlluniau. Ystyried defnyddio byndiau neu bibellau atal os oes risg y caiff tanwydd neu baent ei ollwng a dŵr ei halogi.				
13	Gallai tymheredd cynnes y dŵr ei wneud yn aflach neu mewn tymereddau oer iawn gallai pibellau gael eu difrodi gan rew.	Os bwriedir cynnal y digwyddiad yn ystod tywydd cynnes dros sawl diwrnod, ystyriwch ble y gellid defnyddio deunydd inswleiddio orau er mwyn atal tymereddau dŵr rhag codi. Mewn tywydd oer iawn, bydd angen defnyddio deunydd lagio priodol.				
14	Caiff dŵr ar gyfer paratoi diodydd neu fwyd ei gymryd o fannau nad ydynt yn fannau dŵr yfed.	Labelu tapiau h.y. y rhai sy'n fannau dŵr yfed addas.				
15	Caiff dŵr ei halogi gan bridd/anifeiliaid bach ac ati sy'n dod i mewn drwy bennau agored pibellau.	Disgrifio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer storio pennau agored pibellau neu beipiau dŵr - mae angen eu storio'n briodol uwchlaw lefel y ddaear a rhoi capiau ar y pibellau. Defnyddio bagiau a thagiau i gau mynedfeydd posibl i danciau/tanceri dŵr er mwyn atal halogi ar ôl iddynt gael eu gosod a'u diheintio.				
16	Risg o halogi gan danceri dŵr neu danciau brwnt neu anaddas neu ddŵr nad yw wedi'i ddiheintio'n ddigonol.	Dylai Contractwr Cymwys a chyflenwr y tanceri dŵr/tanciau gydymffurfio â BS 8551 h.y. cofnodion diheintio'r dŵr y tu mewn i'r tanciau, cofnodion sy'n dangos mai dim ond ar gyfer dŵr y mae'r tanc wedi'i ddefnyddio, bod tapiau wedi cael eu gorchuddio a'u tagio, ac ati.				
17	Ar gyfer digwyddiadau mawr neu ddigwyddiadau â rhwydweithiau dosbarthu helaeth efallai y bydd angen systemau trin ychwanegol er mwyn sicrhau cyflenwad dŵr iachus.	Dylid ceisio cyngor gan yr Awdurdod Lleol yn yr achosion hyn er mwyn sicrhau y caiff systemau trin effeithiol eu gosod.				

# Atodiad 4

## Y weithdrefn a argymhellir ar gyfer casglu samplau o ddŵr yfed

### 1.1 | Poteli Samplau Bacteriolegol

Fel arfer, defnyddir poteli 350 ml neu 500 ml at ddibenion samplu a dylent fod yn ddihaut (wedi'u harbelydru â gamma fel arfer) a chynnwys tua 0.35ml o hydoddiant Sodiwm thiosylffad er mwyn niwtraleiddio clorin gweddilliol. Dim ond wrth brofi cyflenwad clorinedig y byddai angen Sodiwm thiosylffad. Gellir defnyddio mathau eraill o boteli dihaut ar yr amod y cânt eu cyflenwi gan y labordy a contractiwyd i ddadansoddi'r sampl.

Cyn dechrau, dylid archwilio poteli samplau er mwyn sicrhau nad ydynt wedi dyddio/bod y sêl yn gyflawn ac nad oes unrhyw arwydd o halogi/gronynnau yn y botel. (Dylid marcio 'Gwrthodwyd' ar boteli sydd wedi'u halogi a'u dychwelyd i'r labordy fel y gellir archwilio'r gyfres o boteli/ei galw yn ôl).

Dylid llenwi poteli yn uniongyrchol o'r tap samplu h.y. ni ddylid llenwi'r botel o gynhwysydd arall a ddefnyddir i gasglu'r dŵr o'r tap.

### 1.2 | Oergelloedd/Blwch Oer

Dylid cadw samplau bacteriolegol yn oer ar ôl eu casglu mewn oergell neu flwch oer. Os defnyddir blwch oer, dylid gosod o leiaf ddau becyn iâ wedi rhewi ynndo cyn gwneud y gwaith samplu.

Dylid monitro tymheredd yr oergell bod dydd. Os na fydd y tymheredd rhwng 2 ac 8oC fel sy'n ofynnol, dylid cymryd camau unioni. Dylid glanhau'r oergell/blwch oer yn ôl yr angen, ac o leiaf unwaith yr wythnos â hydoddiant glanhau clorin addas. Mae'n arfer da cofnodi'r dyddiad gwirio tymheredd a glanhau.

### 1.3 | Cyfarpar ar gyfer cynnal profion ar y safle

Ar gyfer gwaith samplu bacteriolegol, argymhellir y cyfarpar profi canlynol:

- Thermomedr.
- Pecyn profion mesur clorin ac ymweithredyddion (pan fyddwch yn profi cyflenwad dŵr yfed sy'n dod o'r prif gyflenwad).
- Llosgydd nwy a dull cynnau (ar gyfer tapiau y tu allan, neu safle masnachol lle mae'r tapiau a'r amgylchedd yn addas).

- Potel labordy â gwddf gŵydd neu botel chwistrellu ardd a thabledi Instachlor (i'w defnyddio ar gyfer tapiau yng nghartrefi cwsmeriaid a'r tu mewn i adeiladau lle nad yw'r tap neu'r amgylchedd yn addas i'w ddiheintio gan ddefnyddio llosgydd nwy).
- Cyflenwad o boteli sampl (nad ydynt wedi dyddio, y mae eu sêl yn gyflawn a lle nad oes unrhyw halogi i'w weld).
- Noder nad argymhellir defnyddio hancesi diheintio fel yr unig ddull diheintio ond gellir eu defnyddio i lanhau'r tu allan i'r tap cyn ei ddiheintio gan ddefnyddio hydoddiant clorus neu drwy ei gynhesu.
- Dylid gwisgo cyfarpar lechyd a Diogelwch priodol megis sbectol diogelwch a menig.

### 1.4 | Gweithdrefn samplu

Mae trefn y broses casglu samplau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y sampl yn cynrychioli'r cyflenwad dŵr.

Yn gyntaf sicrhewch fod y botel sampl yn addas (gweler adran 1.1).

1. Labelwch y botel yn briodol - dylech gynnwys y dyddiad, yr amser y cymerwyd y sampl, cyfeiriad a lleoliad a'r dadansoddiad sydd ei angen.

2. Profwch y sampl am Glorin os yw'n briodol gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr ar gyfer y pecyn.
3. Ar gyfer diheintio drwy fflamio, sicrhewch fod y tap yn addas, e.e. nad oes ganddo fewnosodiadau plastig. Cyneuwcwch y lamp losgi gan ddefnyddio taniwr nwy/matsis. Anelwch y fflam at ben agored y tap, symudwch y lamp fel bod y pen cyfan yn cael ei gynhesu. Parhewch i fflamio nes y bydd ehangu'r tap yn galluogi unrhyw ddŵr sy'n weddill i gael ei allyrru. Gall hyn gymryd hyd at 60 eiliad. Yn syth ar ôl fflamio'r tap throwch y tap ymlaen a gadwech iddo redeg am 30 eiliad. Byddwch yn clywed hisian ac yn gweld ager yn codi os bydd y tap wedi'i fflamio'n effeithiol. Nodyn 2.
4. Ar gyfer diheintio gan ddefnyddio hydoddiant clorin: diheintiwch y tu allan i geg y tap, wedyn ysgeintiwch neu chwistrellwch yr hydoddiant clorin i mewn i ben y tap gan sicrhau eich bod yn diheintio unrhyw fewnosodiadau yn drylwyr gan ganiatáu amser cyswllt o ddwy funud. Rhedwch y dŵr yn wastraff am o leiaf ddwy funud er mwyn sicrhau y ceir gwared ar yr holl ddiheintydd. Nodyn 2.
5. Llenwch y botel sampl bacteriolegol. Casglwch y sampl yn dra gofalus er mwyn osgoi halogi. Sicrhewch fod y cap yn pwyntio tuag i lawr. Peidiwch â gafeal yn ymyl y botel na gadael iddo gyffwrdd â'r tap. Llenwch y botel yn araf â llif cyson o ddŵr gan sicrhau nad yw dŵr yn tasgu'n ôl o'r sinc. Peidiwch â newid cyflymder y llif tra bod y botel yn cael ei llenwi. Llenwch y botel hyd at ei gwar. Ailosodwch y cap ar unwaith ar ôl cymryd y sampl.

6. Rhowch y sampl mewn oergell neu flwch oer.
7. Dylid anfon samplau bacteriolegol i'r labordy a'u dadansoddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl. Argymhellir y dylid gwneud hyn o fewn chwe awr er ei bod yn dderbyniol cymryd hyd at 24 awr.

### 1.5 | Paratoi hydoddiant clorin ar gyfer diheintio tapiau

Dylid gwisgo menig tafladwy. Defnyddiwch yr hyn sy'n cyfateb i 10 tabled Instachlor PR-250(i) fesul 500 ml o ddŵr mewn potel ysgeintio blastig sydd wedi'i labelu'n briodol (sy'n rhoi hydoddiant gweithredol terfynol o 5,000 ppm o hydoddiant sodiwm hypochlorit). Dylid cymysgu'r hydoddiannau clorin mewn man sy'n cael digon o awyr iach a dylid gadael i'r poteli ysgeintio sefyll y tu allan tra bod y tabledi yn toddi. Caniatewch o leiaf hanner awr i'r tabledi doddi.

Pan fyddwch yn cymysgu'r hydoddiannau hyn peidiwch â chau / tynhau'r ffroenell ar y botel ysgeintio cyn bod y tabledi wedi toddi'n llwyr neu bydd pwysedd yn cynyddu a allai arwain at yr hydoddiant yn tasgu allan o'r botel pan ryddheir y pwysedd / ffroenell. Felly, am resymau diogelwch, mae'n well cymysgu'r hydoddiant clorin mewn potel olchi addas sy'n gwagio'n awtomatig. Unwaith y bydd yr hydoddiant wedi'i gymysgu dylid ysgrifennu'r dyddiad dod i ben (wythnos i'r diwrnod y cymysgwyd yr hydoddiant) ar label a'i roi ar y botel. Peidiwch â defnyddio'r hydoddiant ar ôl y dyddiad hwn. Dylech gael gwared ar unrhyw hydoddiant sy'n weddill yn ddiogel a chymysgu rhagor. Dolen i Gyflenwyr Instachlor: [www.palintest.com](http://www.palintest.com).

---

#### Nodyn 2:

Sicrhewch y cynhelir asesiad risg o'r weithdrefn diheintio tapiau a bod samplwyr yn ymwybodol o'r asesiad risg ac y rhoddir Cyfarpar Diogelu Personol priodol iddynt, e.e. sbectol diogelwch, menig ac ati.